Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

# Canllawiau ar ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol yn gyfrifol

Ni yw'r rheoleiddiwr nyrsio a bydwreigiaeth i Gymru, Lloegr, yr Alban, a Gogledd Iwerddon.

- Rydym yn bodoli er mwyn diogelu iechyd a lles y cyhoedd.
- Rydym yn pennu'r safonau ar gyfer addysg, hyfforddiant ac ymddygiad a pherfformiad er mwyn i nyrsys a bydwragedd allu darparu gofal iechyd o safon uchel yn gyson drwy gydol eu gyrfaoedd.
- Rydym yn sicrhau bod gan nyrsys a bydwragedd y sgiliau a'r wybodaeth ddiweddaraf a'u bod yn cynnal ein safonau proffesiynol.
- Mae gennym brosesau clir a thryloyw i ymchwilio i nyrsys a bydwragedd nad ydynt yn cyrraedd ein safonau.

Dylid darllen y canllawiau hyn ar y cyd â’r ddogfen Y Cod: *Safonau ymarfer ac ymddygiad proffesiynol i nyrsys a bydwragedd* (y Cod) (CNB, 2015).

Dylai nyrsys a bydwragedd gyfeirio at y canllawiau hyn ynghyd ag unrhyw ganllawiau ar y cyfryngau cymdeithasol a ddarperir gan eu cyflogwyr.

Mae ein canllawiau cyfryngau cymdeithasol, sy'n cael eu hategu gan y Cod, yn ymdrin â'r angen i ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol a safleoedd rhwydweithio cymdeithasol yn gyfrifol. Mae'n cynnwys gwahanol fathau o gymwysiadau, offer a llwyfannau cyfryngau cymdeithasol presennol a rhai sy'n dod i'r amlwg, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i WhatsApp, Instagram, TikTok, Facebook ac yn y blaen, ac mae'n ymdrin â defnydd personol proffesiynol a phreifat o'r cymwysiadau, yr offer a'r llwyfannau hynny gan gofrestreion NMC.

Nid yw wedi'i fwriadu i ymdrin â phob sefyllfa cyfryngau cymdeithasol y gall nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio ei hwynebu, fodd bynnag, mae'n nodi egwyddorion eang i'w galluogi i ystyried materion a gweithredu'n broffesiynol, gan sicrhau diogelwch y cyhoedd, cyfrinachedd a phreifatrwydd bob amser.

Gan fod natur a chwmpas y cyfryngau cymdeithasol yn newid yn barhaus, byddwn yn adolygu’r canllawiau hyn yn ôl yr angen ac yn rhoi egwyddorion y Cod ar waith ar gyfer unrhyw sefyllfa newydd sy’n datblygu.

## Cyflwyniad

If Gall safleoedd rhwydweithio cymdeithasol gynnig sawl mantais ar gyfer nyrsys bydwragedd a myfyrwyr os cânt eu defnyddio mewn modd cyfrifol a phriodol. Ymhlith y rhain mae'r canlynol:

- meithrin a chynnal cydberthnasau proffesiynol;
- sefydlu neu gael gafael ar rwydweithiau cymorth nyrsio a bydwreigiaeth a thrafod materion, diddordebau, ymchwil a phrofiadau clinigol penodol gyda gweithwyr proffesiynol eraill ledled y byd;
- gallu cael gafael ar adnoddau ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus (DPP).

Mae'r ddogfen hon yn rhoi canllawiau i nyrsys a bydwragedd ar sut i ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol[1] a gwefannau rhwydweithio cymdeithasol[2] yn gyfrifol ac yn unol â gofynion y Cod.

Gellir cymhwyso'r egwyddorion a amlinellir yn y canllawiau hyn yn gyffredinol hefyd ar gyfer pob math o gyfathrebu ar-lein, megis gwefannau a blogiau personol, byrddau trafod a chynnwys cyffredinol a rennir ar-lein gan gynnwys testun, ffotograffau, delweddau, fideos a ffeiliau sain.

[1] Y cyfryngau cymdeithasol: "Gwefannau a chymwysiadau sy'n galluogi defnyddwyr i greu a rhannu cynnwys neu i gymryd rhan mewn rhwydweithio cymdeithasol."

[2] Rhwydweithio cymdeithasol: "Defnyddio gwefannau a chymwysiadau penodol i ryngweithio â defnyddwyr eraill, neu ddod o hyd i bobl sydd â diddordebau tebyg."

## Canllawiau ar ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol yn gyfrifol

Mae'r Cod yn cynnwys cyfres o ddatganiadau sydd, gyda'i gilydd, yn dynodi beth yw arfer nyrsio a bydwreigiaeth dda. Mae'n bwysig eich bod yn dangos ymrwymiad i'r safonau hyn, gan gynnwys y canlynol:

**"Defnyddio pob ffurf ar gyfathrebu geiriol, ysgrifenedig a digidol (gan gynnwys y cyfryngau cymdeithasol a gwefannau rhwydweithio) mewn ffordd gyfrifol."**
(Y Cod, paragraff 20.10)

Nurses Gallai nyrsys a bydwragedd beryglu eu cofrestriad, a gallai myfyrwyr beryglu eu gallu i ymuno â'n cofrestr, os byddant yn ymddwyn mewn unrhyw ffordd sy'n amhroffesiynol neu'n anghyfreithlon ar gyfryngau cymdeithasol, gan gynnwys y ffyrdd canlynol (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt):

- rhannu gwybodaeth gyfrinachol mewn modd amhriodol;
- rhannu lluniau o gleifion a phobl sy'n derbyn gofal heb eu caniatâd;
- rhannu sylwadau amhriodol am gleifion;
- bwlio ac aflonyddu ar bobl neu gymryd mantais ohonynt;
- meithrin neu barhau â chydberthnasau â chleifion neu ddefnyddwyr gwasanaeth;
- dwyn gwybodaeth bersonol neu ddefnyddio manylion personol rhywun arall;
- annog trais neu hunan-niweidio;
- annog atgasedd neu wahaniaethu.

Os ydych chi'n ymwybodol bod nyrs neu fydwraig arall wedi defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol mewn un o'r ffyrdd hyn, gallai fod yn ddefnyddiol i chi ddarllen ein canllawiau ar godi pryderon (CNB, 2013). Mae hyn yn amlinellu eich dyletswydd broffesiynol i nodi unrhyw bryderon sydd gennych am ddiogelwch y bobl yn eich

gofal neu'r cyhoedd, a'r camau y dylech eu cymryd i wneud hyn.

Rydym yn tynnu sylw at y berthynas rhwng defnyddio cyfryngau cymdeithasol a'r Cod ar y  dudalen nesaf.

## Blaenoriaethu pobl

Mae'r Cod yn pwysleisio pwysigrwydd rhoi buddiannau pobl sy'n defnyddio neu sydd angen gwasanaethau nyrsio neu fydwreigiaeth yn gyntaf. Dylech sicrhau bod eich ymddygiad ar y cyfryngau cymdeithasol yn cyd-fynd â hyn bob amser.

**"Trin pobl yn garedig, gan ddangos parch a thrugaredd."** (Y Cod, paragraff 1.1)

Peidiwch â rhannu unrhyw beth ar y cyfryngau cymdeithasol y gellir ei ystyried yn wahaniaethol, nad yw'n cydnabod dewis unigol neu nad yw'n gwarchod urddas y rheini sy'n derbyn gofal.

**"Fel nyrs neu fydwraig, mae gennych ddyletswydd o gyfrinachedd i bawb sy'n derbyn gofal."** (Y Cod, paragraff 5)

Nid yw'n dderbyniol i nyrsys a bydwragedd drafod materion sy'n ymwneud â'r bobl yn eu gofal y tu allan i leoliadau clinigol. Os ydych yn cyfeirio at eich gwaith neu'ch astudiaethau ar gyfryngau cymdeithasol, mae angen i chi ddangos parch a phroffesiynoldeb tuag at eich holl gleifion neu ddefnyddwyr gwasanaeth drwy barchu eu hawl i breifatrwydd a chyfrinachedd. Mae hyn yn wir p'un a ydych yn credu bod risg y gallant gael eu hadnabod ai peidio.

Gall rhannu gwybodaeth gyfrinachol ar-lein wneud mwy o niwed na'i rannu ar lafar gan fod modd ei rannu mor gyflym i gynulleidfa a allai fod yn fawr. Mae'n bwysig cofio, efallai, er na fydd rhywfaint o wybodaeth yn torri'r rheolau o ran hawl claf i gyfrinachedd pan na chaiff ei enwi, gallai pobl gael eu hadnabod o hyd a gallai'r ymddygiad hwn fod yn amhriodol.

## Ymarfer yn effeithiol

**"Ymarfer yn unol â'r dystiolaeth orau sydd ar gael bob amser."** (Y Cod, paragraff 6).

Fel nyrs neu fydwraig, mae gennych gyfrifoldeb i sicrhau bod unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gennych drwy'r cyfryngau cymdeithasol yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn gywir hyd y gwyddoch. Ni ddylech drafod unrhyw beth sydd y tu hwnt i lefel eich gallu a dylech osgoi gwneud sylwadau cyffredinol y gellid eu hystyried yn anghywir.

**"Cyfathrebu'n effeithiol â chydweithwyr bob amser."** (Y Cod, paragraff 8.2)

Mae'n rhaid i chi gydweithio â'ch cydweithwyr, ac mae hyn yn cynnwys cyfathrebu mewn modd priodol pan fyddwch yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol.

## Cynnal diogelwch

**"Gweithredu yn ddi-oed os credwch fod risg i ddiogelwch cleifion neu'r cyhoedd."** (Y Cod, paragraff 16)

Ni ddylech ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i aflonyddu ar unrhyw un na'i erlid, na cheisio atal neu rwystro rhywun rhag codi eu pryderon.

## Annog proffesiynoldeb ac ymddiriedaeth

**"Cadw'n wrthrychol a chadw at derfynau proffesiynol clir bob amser gyda phobl yn eich gofal (gan gynnwys y rhai a fu yn eich gofal yn y gorffennol), eu teuluoedd a'u gofalwyr."** (Y Cod, paragraff 20.6)

Ni ddylai nyrsys a bydwragedd ddefnyddio'r rhwydweithiau cymdeithasol i feithrin neu geisio datblygu cydberthnasau â

chleifion a defnyddwyr gwasanaeth gan y gall hyn wneud y ffiniau proffesiynol yn aneglur. Mae'n bwysig cofio, hyd yn oed heb i chi ymgysylltu â chleifion neu ddefnyddwyr gwasanaeth ar gyfryngau cymdeithasol, y gallent gael gafael ar eich eich gwybodaeth o hyd.

**"Ymddwyn gyda gonestrwydd ac uniondeb mewn unrhyw drafodion ariannol rhyngoch chi a phawb y mae gennych gydberthynas broffesiynol â nhw, gan gynnwys pobl yn eich gofal."** (Y Cod, paragraff 21.3)

As a nurse or midwife, you have a responsibility to ensure that you declare any conflict of interest around material that you post on social media including financial or commercial dealings.

## Sut i ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol yn gyfrifol

### Byddwch yn hyddysg

Sicrhewch eich bod yn ymgyfarwyddo â'r ffordd y mae cymwysiadau cyfryngau cymdeithasol gwahanol yn gweithio a byddwch yn ymwybodol o'r manteision a'r anfanteision.

### Meddyliwch cyn rhannu

Mae'n bwysig sylweddoli bod cyfyngiadau yn bodoli hyd yn oed ar y gosodiadau preifatrwydd mwyaf caeth. Mae hyn gan fod modd copïo ac ailddosbarthu rhywbeth unwaith mae'n ymddangos ar-lein.

### Diogelwch eich proffesiynoldeb a'ch enw da

If Os nad ydych yn siŵr a allai rhywbeth a roddir gennych ar-lein beryglu eich proffesiynoldeb neu eich enw da, dylech ystyried beth mae'r wybodaeth yn ei olygu i chi yn ymarferol a'r ffordd mae'n effeithio ar eich cyfrifoldeb i lynu at y Cod.

Mae'n bwysig ystyried pwy a beth rydych yn ymwneud â nhw ar y cyfryngau cymdeithasol. Er enghraifft, gall cydnabod rhywbeth a rennir gan rywun arall awgrymu eich bod yn ardystio neu'n cefnogi eu barn. Dylech ystyried y posibilrwydd o gael eich cynnwys mewn deunydd anweddus gan eraill. Os ydych wedi bod yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol am nifer o flynyddoedd, mae'n bwysig ystyried yr hyn rydych wedi'i roi ar-lein yn y gorffennol, mewn perthynas â'r Cod.

Cyngor
Nyrsio a
Bydwreigiaeth

23 Portland Place, London W1B 1PZ
**T** +44 20 7637 7181 **F** +44 20 7436 2924
**www.nmc.org.uk**

Rheoleiddiwr nyrsio a bydwreigiaeth yng Nghymru,
Lloegr, yr Alban, Gogledd Iwerddon a'r Ynysoedd

Elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr (1091434) ac yn yr Alban (SC038362)